



COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
Dydd Mawrth 20 Chwefror 2024 am 10.00am (cyfarfod Microsoft Teams)

Yn Bresennol

Cyng. Neil Prior	Aelod Cabinet y Cyngor dros Wella Corfforaethol a Chymunedau, Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd)
Mydrian Harries	Prif Swyddog Cynorthwyol - Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Darren Mutter	Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro
Caroline Drayton	Rheolwr Gweithrediadau, CNC
Iwan Thomas	Prif Swyddog Gweithredol, PLANED
Alison Perry	Cyfarwyddwr Comisiynu, OPCC
Linda Jones	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WW
Barry Walters	Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr, APCAP
Sue Leonard (cyrr. 10:10)	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)
Anna Malloy (cyrr. 10:55)	Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Rhanddeiliaid, Porthladd Aberdaugleddau (gadael 11:43)
Robert Green	Ymgynghorydd Dros Dro Iechyd Cyhoeddus/Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Rachel Wolfendale	Cydlynnydd y Prosiect, Cyd-gynhyrchu Cymru
Bailie Olivia-Jones	Cynorthwydd Cynllunio a Pherfformiad, MAWWFRS
Yovieta Andrews	Rhaglen Genedlaethol Datblygu Graddedigion, Cyngor Sir Penfro
Robyn Collip	Rhaglen Genedlaethol Datblygu Graddedigion, Cyngor Sir Penfro

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Rachael Rimmer	Swyddog Cefnogi Polisi Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro

Ymddiheuriadau

Will Bramble	Claire Germain
Michael Gray	
Dr Ardiana Gjini	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro

Cyfarwyddwr Gofal
Cymdeithasol a Thai, Cyngor
Sir Penfro

Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau
Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 10.02am

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrwyd uchod.

Rhoddodd NP grynodedb byr o strwythur y BGC a'i lefelau aur, arian ac efydd. Dywedodd hefyd fod y nodiadau a'r cyflwyniadau o'r Uwchgynhadledd Tlodi diweddar bellach wedi'u dosbarthu i'r grŵp.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Cofnod Gweithredu

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 fel cofnod cywir. Cwblhawyd dau gam o'r cyfarfod blaenorol.

Ni chwblhawyd y camau a neilltuwyd i SK gan fod SK wedi gadael y sefydliad. Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Bydd LR yn cysylltu â Daniel West i weld a yw'n dal yn bosibl cylchredeg y dogfennau perthnasol.

Bwriedir trafod dau o'r camau gweithredu yn y cyfarfod hwn:

1. Capasiti diogel i symud ymlaen gyda datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Benfro - **Trafodwyd yn eitem 4**
2. Adolygu cysylltiadau Cynllun Llesiant enwebedig ar gyfer pob aelod o'r BGC ar is-grwpiau - Bydd yn cael ei gwblhau fel rhan o'r adolygiad o ddarpariaeth y cynllun Llesiant - **Trafodwyd yn eitem 5**

3. Sesiwn 'Sbotolau' Cynllun Llesiant – Prosiect Tlodi

Gwahoddodd NP DM i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Tlodi.

Uwchgynhadledd Tlodi

Dechreuodd DM drwy ddiolch i bawb a oedd wedi helpu gyda rhedeg a threfnu'r Uwchgynhadledd Tlodi a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2024. Cafodd y digwyddiad dderbyniad a phresenoldeb ardderchog, gyda dros 100 o bobl yn bresennol ar y diwrnod. Gan fod hwn yn ddigwyddiad agoriadol, eglurodd DM y byddai'n cymryd peth amser dros yr wythnosau nesaf gyda chydweithwyr i fyfyrion ar sut y gellid gwella'r digwyddiad yn y blynyddoedd i ddod. Mynegodd DM fod yr Uwchgynhadledd Tlodi yn ymwneud â chasglu ymrwymiad, ond bod angen i'r gwaith hwnnw ddechrau ar wneud i'r gwaith hwn ddigwydd mewn gwirionedd. Gwahoddodd DM y mynychwyr i ofyn cwestiynau neu wneud unrhyw sylwadau am yr Uwchgynhadledd Tlodi.

Eglurodd TJ fod rhai aelodau gwybodus iawn o'r gynulleidfa yn y digwyddiad a oedd â rhywfaint o fewnwelediad gwych i'r pynciau a drafodwyd. Awgrymodd efallai bod angen canolbwyntio mwy ar ganiatáu i unigolion herio arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y fforymau hyn. Cytunodd DM, ac eglurodd ei fod yn cysylltu ag amrywiol fynychwyr yr Uwchgynhadledd Tlodi a oedd wedi bod yn herio'r pwyntiau a'r pynciau a godwyd.

Dywedodd DM hefyd, wrth symud ymlaen, mai blaenoriaeth uniongyrchol i'r gweithgor Tlodi fyddai gwella aelodaeth profiad byw'r grŵp, gan mai cynrychiolaeth sefydliadol yn unig oedd ganddo ar hyn o bryd. Mynegodd ei bod yn bwysig poblogi gweithgorau gydag unigolion sy'n meddwl yn wahanol ac sy'n barod i herio arweinwyr i adolygu a myfyrio ar eu gwaith. Cynigiodd SL gefnogaeth PAVS wrth helpu i ddod â thasglu neu grŵp cynghori at ei gilydd i helpu pobl â phrofiadau byw mewn tlodi i ddod at ei gilydd. Awgrymodd DM fod angen nodi'r bobl sy'n gwneud gwahaniaeth mawr gyda'u gwaith, ond sy'n llai llafar am yr hyn sy'n cael ei wneud. Bydd hyn yn ein galluogi i wrando a dysgu oddi wrthynt. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd ailadrodd enghreifftiau da o waith ar draws y sir. Er enghraifft, gellid efelychu gwaith Prosiect Materion Ieuencid Aberdaugleddau mewn canolfannau ieuencid eraill ledled Sir Benfro

Awgrymodd DM y gallai creu is-grŵp profiadau byw ar y lefel efydd fod yn ffordd bosibl ymlaen. Cytunodd NP fod cael pobl â phrofiadau byw i gymryd rhan ar y lefel efydd yn gam cadarnhaol, ac awgrymodd y gellid archwilio'r un syniad ar gyfer y ffrwd waith Cryfhau Cymunedau.

Awgrymwyd y dylid cymryd y camau canlynol ymlaen:

- Cynnwys unigolion sydd â phrofiadau byw o dlodi ar lefel efydd y BGC.

Awgrymodd IT fod yr Uwchgynhadledd Tlodi wedi bod yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at y materion y gwyddom sy'n bodoli, ond wrth symud ymlaen mae'n bwysig dangos sut rydym yn ceisio datrys y materion hyn gan ddefnyddio ein hadnoddau ar y cyd. Mynegodd IT hefyd fod angen i ni fod yn ofalus gyda'r iaith a'r derminoleg sy'n cael eu defnyddio o amgylch tlodi. Awgrymodd y gall labelu pobl â'r gair 'tlodi' greu stigma a rhwystrau, na fydd yn annog pobl sydd angen cymorth i ddod ymlaen. Dywedodd IT y gallem ystyried rhoi mwy o bwyslais ar 'iechyd a lles economaidd' fel dewis arall. Nododd DM ei fod wedi bod yn rhan o drafodaethau blaenorol ynghylch sut roedd 'cynyddu ffyniant' yr un fath â 'lleihau tlodi', ac felly y gellid ei ystyried yn derminoleg fwy priodol. Eglurodd fod angen dod o hyd i gydbwysedd i sicrhau, trwy ganolbwyntio ar ffyniant, nad yw negeseuon effeithiol tlodi yn cael eu hanwybyddu. Cytunodd BW fod cynyddu ffyniant yn derminoleg dda i'w defnyddio, a bod ei sefydliad wedi ail-lunio eu strategaeth dlodi yn 'strategaeth lles ariannol i staff a dysgwyr'. Awgrymodd hefyd bod targedu cymorth at y rhai sydd mewn perygl o dlodi yn unig yn anodd, ac mai'r ffordd orau o sicrhau cymorth yw sicrhau ei fod ar gael i bawb.

Ychwanegodd SL, er bod yr Uwchgynhadledd Tlodi wedi tynnu sylw at amrywiaeth o gymorth sydd ar gael, gall fod yn eithaf llethol a dryslyd. Dywedodd nad oedd pobl yn aml yn gwybod ble i ddechrau. Amlygodd SL fod gennym seilwaith eisoes ar waith i gefnogi hyn y gallwn barhau i fuddsoddi ynddo, fel yr hwb cymunedol. Bydd hyn yn

helpu i gefnogi mentrau fel gwirfoddoli cymunedol. Pwysleisiodd SL mai adeiladu'r rhwydwaith hwn drwy'r hwb cymunedol yw'r cynllun, a bod angen defnyddio'r seilwaith sydd ar waith yn wahanol.

Cynigiodd TJ y gellid cael mwy o gynrychiolaeth o ysgolion ac addysg yn y gwaith sy'n ymwneud â tlodi, gan eu bod yn aml ar y rheng flaen yn delio â'r materion hyn wrth iddynt ddiwydd. Dywedodd DM ei fod ef a James White (Pennaeth Ymgysylltu a Chymunedau) yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd penaethiaid cynradd ac uwchradd, a'u bod hefyd wedi cyfarfod â nhw ar wahân o bryd i'w gilydd i drafod materion cysylltiedig. Cytunodd DM y gallent barhau i ymwneud mwy â'r gweithgor tlodi, ac y byddai cynrychiolaeth ar gyfer ysgolion ac addysg ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y gweithgor.

Dywedodd NP y byddai'n mynychu cynhadledd BGC yn Wrecsam ddydd Iau 22 Chwefror 2024, ac y byddai'n trosglwyddo nodweddion yr Uwchgynhadledd Tlodi yn y gynhadledd hon.

Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach

Rhoddodd DM ddiweddariadau ar y prosiect Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach:

- Bydd 15 o sefydliadau yn derbyn cymorth tlodi bwyd i helpu i gyflawni prosiectau perthnasol, a bydd 3 banc bwyd yn derbyn dyfarniadau.
- Mae gwaith yn cael ei wneud i wella gweithgareddau hyrwyddo marchnata ar gyfer yr hwb cymunedol. Mae'r deunydd marchnata gwell hwn yn cynnwys erthyglau yn y Western Telegraph a negeseuon Facebook.
- Cynhaliwyd digwyddiad rhwydweithio ar 28 Tachwedd 2023, yn cynnwys hybiau cymunedol a'r Swyddfa Cyngor ar Bopeth. Roedd y digwyddiad yn hyrwyddo ymdrech ar y cyd ac yn caniatáu i sefydliadau greu cysylltiadau â'i gilydd.
- Mae Rhwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro yn parhau i gyfarfod yn fisol, gan ganiatáu i aelodau rannu ymarfer a chefnogi ei gilydd.
- Mae pecynnau cynnes yn parhau i gael eu dosbarthu trwy nifer o wahanol asiantaethau.
- Mae lleoedd croeso cynnes hefyd yn parhau i fod ar gael ac yn cael eu hariannu.

4. Diweddariadau'r Prosiect Cynllun Llesiant

Prosiectau ar thema'r amgylchedd - Bioamrywiaeth a'r Argyfwng Natur/Addasu Hinsawdd/Datgarboneiddio a Sero Net

Darparodd CD ddiweddariadau i fynychwyr ar gyfer prosiectau ar thema'r Amgylchedd:

- Cynhaliwyd cyfarfod is-grŵp Natur, Datgarboneiddio ac Addasu Hinsawdd ar 7 Chwefror 2024.
- Mae'r is-grŵp wedi cytuno nad oes ganddynt unrhyw gylich gorchwyl, felly byddant yn creu rhai.
- Mae Darren Thomas wedi gwirfoddoli i weithredu fel Is-gadeirydd dros dro yr is-grŵp.

- Mae Daniel West wedi ymuno â Chyngor Sir Penfro ac wedi cymryd rôl Steve Keating. Bydd yn ymgymryd â rôl Is-gadeirydd yr is-grŵp unwaith y bydd wedi setlo yn ei rôl newydd. Bydd hefyd yn arwain ar ddiweddariadau prosiect datgarboneiddio yn y dyfodol.
- Mae'r is-grŵp wedi bod yn rhoi cynnig ar fformat newydd defnyddiol i gynyddu ymgysylltiad mewn cyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys gofyn i bob aelod o'r grŵp sut mae eu sefydliad wedi bod yn cyfrannu at waith y grŵp.
- Rhoddodd APCAP gyflwyniad am eu cynllun rheoli 5 mlynedd yn y cyfarfod is-grŵp diwethaf. Roedd y trafodaethau ynghylch hyn yn gadarnhaol ac yn gydweithredol.

Nododd CD nad oedd penderfyniad ar y cyd wedi'i wneud yng nghyfarfod diwethaf y BGC ynghylch cyllid ar gyfer cynllun gweithredu bioamrywiaeth. Yn y cyfarfod blaenorol, roedd AR wedi gofyn am £1000 gan bob corff partner i ariannu ysgrifennu'r cynllun, ac roedd rhai aelodau wedi nodi y byddent yn gallu cyfrannu. Gofynnodd CD am eglurhad a yw hwn yn benderfyniad y gellid ei wneud yn y cyfarfod hwn, neu a oedd angen mwy o wybodaeth am y prosiect ar fynychwyr. Nododd hefyd na fyddai CNC yn gallu cyfrannu unrhyw gyllid tuag at hyn, oherwydd ei fod yn eistedd ar sawl BGC a rheolau ynghylch grantiau a chyllid.

Dywedodd NP nad oedd hwn yn benderfyniad y gellid ei wneud yn ystod y cyfarfod hwn, oherwydd yr ansicrwydd presennol ynghylch cyllidebau i lawer o sefydliadau. Awgrymodd y gallai fod angen achos busnes i amlinellu'r Cynllun Gweithredu yn fanylach a thynnu sylw at y manteision a ddaw yn ei sgil.

Dywedodd RG fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn sefyllfa debyg i CNC gan eu bod yn eistedd ar sawl BGC. Gan ei bod yn ofynnol iddynt fabwysiadu ymagwedd deg ar draws pob BGC, ni fyddent ychwaith yn gallu darparu unrhyw gyllid. Dywedodd fod angen ffordd gyffredin o gaffael arian i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni eu potensial, ac awgrymodd y gellid codi hyn yng Nghynhadledd y BGC ar 22 Chwefror.

Amlygodd TJ fod y mater hwn o gyllid ar gyfer BGC wedi codi yn y gorffennol, a bod angen trosglwyddo pryderon i Lywodraeth Cymru (LIC). Awgrymodd y byddai creu cynllun busnes yn ddefnyddiol yn yr achos hwn, ac y gallai hyn fod yn fodel safonol yn y dyfodol. Rhannodd CD ei phryder bod creu achos busnes yn ddarn arall o waith, ac na fyddai CNC yn gallu ariannu hyn ychwaith. Eglurodd mai dim ond os byddai'n werthfawr gwneud hynny y byddai'n ddefnyddiol bwrw ymlaen â hyn, ac os oes adnodd o fewn y grŵp i gefnogi hyn. Awgrymodd NP y gallai fod yn achos busnes amlinellol, dim ond i ddangos i'r grŵp beth sydd ei angen. Dywedodd y gallai dull gwell yn y dyfodol fod yn gwneud mwy o waith un i un gyda rhanddeiliad cyn y cais am gyllid neu adnoddau, fel bod mwy o ymwybyddiaeth o fewn y grŵp ymlaen llaw am yr hyn a ofynnir. Dywedodd llyfarydd ar ran Llywodraeth Cymru nad oedd hi'n glir beth oedd y canlyniad ar gyfer y gwaith hwn. O'r herwydd, mae'r cais am gyllid yn teimlo'n fwy damcaniaethol gan fod canlyniad heb ei ddiffinio.

Mynegodd TJ fod y rhan fwyaf o sefydliadau wedi'u rhwymo gan ddyletswydd Adran 6 ar fioamrywiaeth, ac awgrymodd y gallai fod rhywfaint o fudd wrth greu cynllun mwy cyfunol. Awgrymodd MH ac SL yn yr un modd y gallai'r gwaith hwn orgyffwrdd â

gwaith partneriaid, ac mae'n debyg y bydd agweddau mewn cynlluniau eraill a allai gyfrannu at yr un hwn.

Eglurodd NP bum pwynt allweddol o'r drafodaeth hon, a chytunodd CD i drafod y rhain gyda'r is-grŵp yn eu cyfarfod nesaf:

- Mae angen cydnabod anawsterau ariannol presennol
- Gallai creu cynllun busnes fod yn ddefnyddiol i helpu i gefnogi cais am gyllid
- Gallai ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid fod o gymorth yn y dyfodol cyn gofyn am arian ac adnoddau
- Gallai edrych yn rhagweithiol ar gynlluniau sydd eisoes yn bodoli
- Cyfle i ymgysylltu â grwpiau cymunedol sy'n awyddus i gymryd rhan

Cryfhau Cymunedau

Rhoddodd NP ddiweddariad byr ynghylch y Grŵp Gweithredol Cryfhau Cymunedau (CCRG gynt), sef grŵp lefel efydd newydd y BGC. Roedd y grŵp wedi cael cyfarfod yn ddiweddar ac yn gweithio ar gynllun gweithredu manwl i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC.

Dywedodd SL fod llawer o waith diddorol yn digwydd yn PAVS, PLANED, a'r awdurdod lleol trwy eu prosiectau angor. Tynnodd sylw at y ffaith bod cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gael tan fis Rhagfyr, gan ganiatáu cynnydd o ran y gwaith o'r cynllun llesiant fel proffiliau cymunedol a gwirfoddoli cymunedol. Roedd gan PLANED hefyd rywfaint o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i barhau â'r gwaith o amgylch asedau cymunedol ac ymddiriedolaethau tir cymunedol. Mae partneriaid anstatudol sy'n eistedd yn y trydydd sector wedi parhau i ddod ag arian i mewn o leoedd eraill. Gofynnodd NE a oedd cyfeiriad clir i'r hyn sy'n cael ei ystyried ar gyfer proffiliau cymunedol. Eglurodd SL eu bod yn edrych i weld beth sydd ar gael, a pha adnoddau sydd ar gael i'w tynnu at ei gilydd fel man cychwyn i gymunedau.

Roedd TJ yn cwestiynu a fyddai'n bosibl i'r grwpiau darlledu gwasanaeth cyhoeddus wneud cais am gyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac a allai Cyngor Sir Penfro roi blaenoriaeth i'r prosiectau hynny sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Eglurodd NP fod llawer o'r ceisiadau cyllido eisoes yn cyd-fynd â nodau BGC, er efallai y gallai'r BGC wneud cais am yr arian hwn yn y dyfodol.

Cyflwynodd NP YA i roi cyflwyniad byr ar ddatblygiad y Strategaeth Gymunedol:

- Y nod yw datblygu cynllun gweithredu strwythuredig i wireddu gweledigaeth strategol y Cyngor
- Y gobaith yw y gellir bwrw ymlaen â hyn ar y cyd
- Anogodd YA unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu trwy e-bost a thrafod cyfleoedd i gymryd rhan

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Byddai cyfeiriad e-bost YA yn cael ei ddsbarthu i'r grŵp

5. Adolygiad Anffurfiol o gyflawni'r Cynllun Llesiant

Esboniodd NE i'r mynychwyr bod bron i 12 mis wedi bod ers i'r Cynllun Llesiant gael ei gynhyrchu. Felly, mae angen cael trafodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n mynd yn dda o'r cynllun, a'r hyn y gall grwpiau ei ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mynegodd NE hefyd y bydd hyn yn rhoi darlun cliriach o unrhyw faterion a heriau sydd wedi codi dros y 12 mis diwethaf. Mae LR wedi bod mewn cysylltiad ag unigolion perthnasol i ddod o hyd i ddyddiad addas ar gyfer y drafodaeth hon, ac erbyn hyn mae dyddiad yn y dyddiadur. Eglurodd LR y bydd y drafodaeth hon yn bwydo i mewn i'r Adroddiad Blynyddol a fydd yn cael ei gynhyrchu ym mis Mai 2024.

Awgrymodd NP y gellid tynnu arolwg cyflym Microsoft Forms at ei gilydd hefyd i fwydo i mewn i'r Adroddiad Blynyddol. Byddai hyn yn sicrhau y gallai pawb a fynychodd gyfarfodydd BGC gael y cyfle i roi adborth, nid dim ond Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion is-grwpiau.

6. UFA

Cyflwynodd LJ ei hun fel yr Arweinydd Rhanbarthol newydd ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol. Nododd y byddai holiadur yn cael ei ddsbarthu'n fuan gyda chwestiynau amrywiol am fentrau presgripsiynu cymdeithasol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i dynnu sylw at fentrau da a allai elwa o ymweliadau LIC.

Amlygodd SL y byddai'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar (RCP) yn lansio rhaglen o ddigwyddiadau dysgu yn fuan. Mae'r rhain wedi cael eu curadu gan Together for Change a PAVS ar ran Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar. Bydd y digwyddiadau yn gymharol fyr, yn rhad ac am ddim ac ar-lein. Anogodd SL aelodau BGC i fynychu'r digwyddiadau dysgu hyn, a rhannu gydag unrhyw gydweithwyr a allai elwa ohonynt. Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Cylchredeg rhaglen o ddigwyddiadau gyda phartneriaid y BGC fel y gall pobl nodi'r dyddiadau yn eu dyddiaduron.

Amlygodd NE fod LIC wedi bod yn profi problemau gyda'u system archebu ar gyfer digwyddiad BGC Cymru gyfan yn Wrecsam ar 22^{ain} Chwefror. Gofynnodd i unrhyw un sydd wedi cadw lle yn y digwyddiad ond nad oedd eu henwau ar y rhestr i gysylltu ag ef.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:04pm

Cofnod Gweithredu

Rhif	Tud.	Cam gweithredu	Dyddiad targed	Perchennog	Penderfyniad
1	2	Cysylltu â Daniel West i weld a yw'n bosibl cylchredeg dogfennau sy'n weddill (wedi'u neilltuo i SK) o gofnod gweithredu'r cyfarfod blaenorol		LR	
2	3	Cynnwys unigolion sydd â phrofiadau byw o dlodi ar lefel efydd y BGC.		DM	
3	5	Cylchredeg cyfeiriad e-bost YA i'r grŵp		YA/NP	
4	6	Cylchredeg rhaglen digwyddiadau dysgu'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar		LR	